

Prosiect Bioamrywiaeth Afon Menai

Mae'r prosiect hwn yn ceisio ymateb i'r bygythiad y mae'r Minc Americanaidd yn ei beri i fioamrywiaeth ar Ynys Môn. Heb ymyrraeth, gallai'r ysglyfaethwr anffroddol hwn arwain at dranc llygod dŵr ar yr ynys, a hefyd effeithio ar gytreffi o adar gwlypdir ac adar hirgoes sy'n bridio. Bydd y prosiect hwn yn gweithio gyda chymunedau ar bob ochr i'r Fenai ac yn sefydlu rhwydwaith o Geidwaid Afon i weithredu rhaglen o fonitro, ymgysylltu a rheoli i sicrhau bod Ynys Môn yn parhau i fod yn lloches i rywogaethau a warchodir.

Bydd y ddarpariaeth yn canolbwyntio ar bob ochr i'r Fenai, yn benodol ar y cynefinoedd sy'n darparu coridor ar gyfer rhywogaethau goresgynnol, ond bydd y manteision yn cael eu teimlo ar draws Ynys Môn hefyd. Mae Menter Môn wedi bod yn darparu ymyriadau tebyg am 15 mlynedd gyda llwyddiant amlwg ond mae angen gwyliadwriaeth a chefnogaeth barhaus. Mae hefyd angen mwy o berchnogaeth gymunedol, a dyna pam mae yna bwyslais ar ymwybyddiaeth a hyfforddiant.

Bydd y prosiect yn hyrwyddo gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'r ddwy rywogaeth flaenoriaeth S7, sef llygod dŵr a dyfrgwn, dwy rywogaeth leol bwysig ond gymharol gyfrinachol ac anodd eu gweld ac yn gwella canfyddiad o'r bygythiadau a'r cyfleoedd sy'n eu hwynebu yn eu cynefin naturiol. Cyflawnir hyn trwy ddigwyddiadau cyhoeddus megis teithiau cerdded tywys a sgysiau, cyfres o gyfleoedd hyfforddi i ddysgu am eu cynefin, ecoleg a sut i adnabod olion yn y maes. Neilltuo a chefnogi 'ceidwaid afonydd' lleol gyda'r hyfforddiant sy'n ofynnol i fonitro rhywogaethau afonydd gan ddefnyddio technegau sefydledig megis trapio gyda camera a rafftau tracio.

Elfen hanfodol fydd atal y minc Americanaidd rhag sefydlu i gael gwared â bygythiad trychinebus posibl i boblogaethau llygod dŵr mewn ardal a ystyrir yn gadarnle i'r rhywogaeth yn genedlaethol. Bydd cael gwared â'r minc hefyd o fudd i fywyd gwyllt eraill glan afon a allai hefyd fod dan fygythiad gan ysglyfaethu gormodol.

Byddwn yn cael caniatâd tirlfeddianwyr yn ystod y broses o gyflwyno'r prosiect er mwyn monitro'r afonydd, bydd tirlfeddianwyr hefyd yn cael eu hannog i ymuno â'r prosiect yn wirfoddol a chaniatáu mynediad tymor hwy i wirfoddolwyr, a gobeithio y byddant yn darparu dyfodol mwy cynaliadwy i'r cynllun.

Bydd y prosiect yn monitro ymlediad minc, yn codi ymwybyddiaeth ac yn hwyluso cyfranogiad lleol. Gweithredir rhaglen strategol o fonitro a rheoli gan ddefnyddio staff y prosiect a gwirfoddolwyr. Bydd hyn yn cael ei gyflawni gan ddefnyddio rafftau ôl troed, gyda thrapiau ond yn cael eu gosod pan fo prawf bod yna finc yn yr ardal.

Mae Menter Môn wedi sefydlu rhwydweithiau cymunedol wedi'u hadeiladu ar flynyddoedd o gyflwyno prosiectau amgylcheddol a chymunedol. Byddwn yn parhau i weithio gyda chynghorau cymuned, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru, RSPB, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cofnod, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a Chymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC). Byddwn hefyd yn creu cysylltiadau â grwpiau newydd megis clybiau pysgota lleol, tirlfeddianwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb.

Menai Rivers Biodiversity Project

This project seeks to respond to the threat the American Mink poses to biodiversity on Anglesey. Without intervention, this non-native predator could lead to the extinction of water voles on the island, and also impact on colonies of breeding wetland and wading birds. This project will work with communities either side of the Menai Straits and establish a network of River Custodians to implement a programme of monitoring, engagement and control to ensure Anglesey remains a refuge for protected species.

Delivery will be focused on either side of the Menai Straits, specifically on the habitats that provide a corridor for invasive species, however the benefit will also be felt across the whole of Anglesey. Menter Môn have been delivering similar interventions for 15 years with demonstrable success however it requires ongoing vigilance and support. It also requires greater community ownership hence the emphasis on awareness and training.

The project will promote a better public understanding and awareness of two S7 priority species, water voles and otters, two important but relatively secretive and difficult to observe local species and generate a greater perception of the threats and opportunities facing them in their natural habitat. This will be achieved through public events such as guided walks and talks, a series of training opportunities to learn about their habitat, ecology and survey for field signs. Assigning and advocating local 'river custodians' with the training required to monitor rivers species using established techniques such as camera trapping and tracking rafts.

A vital element will be preventing American mink from becoming established to eradicate a potentially catastrophic threat to water vole populations in an area considered a stronghold for the species nationally. Removal of mink will also benefit other riverside wildlife which could also be under threat from excessive predation.

Landowner consents will be obtained during project delivery to allow monitoring of the rivers, landowners will also be encouraged to join the project on a voluntary basis and allow longer term access for volunteers, hopefully providing a more sustainable future for the scheme.

This project will monitor mink incursion, raise awareness and facilitate local participation. A strategic programme of monitoring and control will be implemented using project staff and volunteers. This will be achieved using footprint rafts, with traps set only when there is proof that mink are in the area.

Menter Môn have established community networks built on years of delivering environmental and community projects. We will continue to work with community councils, Anglesey and Gwynedd County Councils, North and West Wales Trunk Road Agency, RSPB, Natural Resources Wales, Cofnod, North Wales Wildlife Trust, British Association for Shooting and Conservation (BASC). We will also forge links with new groups such as local angling clubs, landowners and other interested parties.